



CaBan

Llawlyfr Modiwl
XTC/XTE-3210
TAR Cynradd
Profiad Ysgol

Mae profiad ysgol yn rhan hanfodol o holl gyrsiau addysg gychwynnol athrawon. Mae'r modiwl hwn yn gyfle i chi arsylwi dysgwyr ac athrawon yn yr ysgol, i roi cynnig ar syniadau a phrofiadau proffesiynol newydd ac, yn bwysicaf oll, i adfyfyrio ar eich ymarfer eich hun a'i wella.

Amcanion a phwrpas cyffredinol

Bydd y modiwl hwn yn:

- Rhoi cefnogaeth i chi i ddatblygu ystod o sgiliau yn annibynnol (gan gynnwys cryfhau eich gwybodaeth o'r Gymraeg i hyrwyddo 'Cymraeg Pob Dydd') ac ymarfer adfyfyriol i fodloni gofynion y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (PSTL) i ddod yn athro cymwysedig a chyfrannu at y gymuned ddysgu;
- Sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o sut mae cymhwyso gwybodaeth ac ymarfer adfyfyriol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i ddysgwyr;
- Rhoi cefnogaeth i chi adnabod ystod eang o dechnegau'n annibynnol, er mwy adfyfyrio'n feirniadol ynghylch eich datblygiad proffesiynol eich hun ac ymdoddi i amgylchedd yr ysgol;
- Rhoi cyfleoedd i chi ddatblygu dealltwriaeth o gynnwys, egwyddorion a ffocysau XTC /XTE4211 a XTC /XTE4213 yn eu cyd-destun.

Cynnwys y modiwl

Bydd y modiwl profiad ysgol gynradd yn datblygu eich medrusrwydd mewn addysgu a dysgu. Bydd yn cynnwys seminarau agos at yr ymarfer a fydd yn cael eu harwain ar y cyd (yn y lleoliad) ac a fydd yn dangos i chi sut i addysgu ac arsylwi yn yr ysgol. Bydd y strwythur yn dilyn dull graddol o ddysgu sut i addysgu. Dyma enghraifft o'r patrwm:

- Cam 1: Paratoi (Sefydliad Addysg Uwch ac Ysgolion Arweiniol)
- Cam 2: Integreiddio (Sefydliad Addysg Uwch, Ysgolion Arweiniol ac Ysgolion Rhwydwaith)
- Cam 3: Datblygu (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth yr Ysgolion Arweiniol a'r Sefydliadau Addysg Uwch)
- Cam 4: Ymarfer a gweithredu (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth Ysgolion Arweiniol a Sefydliadau Addysg Uwch)
- Cam 5: Ôl-drafod ac adfyfyrio (Sefydliadau Addysg Uwch ac Ysgolion Arweiniol)
- Cam 6: Gweithredu pellach mewn ail ysgol (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth Ysgolion Arweiniol a Sefydliadau Addysg Uwch)
- Cam 7: Cyfnerthu sgiliau ac ymarfer gwybodaeth pwnc mewn ail ysgol (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth Ysgolion Arweiniol a Sefydliadau Addysg Uwch)
- Cam 8: Datblygu a chyfoethogi annibynnol (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth yr Ysgolion Arweiniol a Sefydliadau Addysg Uwch)

Bydd y camau hyn yn cynnwys:

- digwyddiadau addysgu ac adolygu wythnosol mewn clwstwr;
- arsylwadau a datblygiad paratoadol;
- ymchwil agos at ymarfer (ymchwiliadau ar raddfa fach);
- integreiddio i'r amgylchedd addysgu;
- ymarfer a gweithredu sgiliau lefel uwch;
- mentora a hunan-adyfyrio;
- gweithredu pellach trwy ymarfer;
- cyfnerthu sgiliau ac ymarfer;
- datblygiad annibynnol parhaus a chyfoethogi eich ymarfer.

Asesu

Yn ystod y modiwl byddwch yn adfyfrio'n barhaus ar eich cynnydd gyda'ch cydweithwyr a'ch mentor ac yn uwchlwytho'r dystiolaeth berthnasol i'r Pasbort Dysgu Personol. Ar ddiwedd y modiwl, byddwch yn dangos eich bod wedi gwneud cynnydd boddhaol yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Yn achos y modiwl hwn, caiff pasio neu fethu ei gofnodi yn y bwrdd arholi gan ddefnyddio'r PSTL. Mae'r holl fanylion asesu yn erbyn y PSTL wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Asesu PSTL ac mae manylion am sut i ddefnyddio'r Cynllun Dysgu Personol (CDP) ar gael ar-lein.

Deilliannau dysgu

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, byddwch yn gallu:

- Archwilio'n feirniadol yr arferion, rhagdybiaethau a'r damcaniaethau sy'n sail i gynllunio a strwythuro dysgu'r disgyblion a rheoli eu hymddygiad mewn ysgolion cynradd o safbwynt polisi, ymchwil, theori ac arferion cyfredol;
- Dangos dealltwriaeth a phrofiad soffistigedig o addysgu sy'n sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu'r gallu i fod yn uchelgeisiol a medrus, mentrus a chreadigol, moesegol a gwybodus, iach a hyderus yn ôl y gofyn y cwricwlwm.
- Dangos dealltwriaeth ddofn o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o wahanol safbwyntiau a'r camau wedi'u gwerthuso a gymerwyd i roi sylw iddynt;
- Rheoli a threfnu ystafelloedd dosbarth sy'n hyrwyddo diwylliant lle ceir dyheadau uchel ac ymddygiad sy'n cefnogi dysgu;
- Cyfoethogi ymdeimlad dysgwyr o werthoedd cymunedol a diwyllianol trwy ddefnyddio eich gwybodaeth o'r cwricwlwm Cymreig;
- Adfyfrio'n feirniadol ar eich cynnydd a gosod targedau ar y cyd gyda'ch mentor er mwyn bodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth neu ragori arnynt.

Cynnydd mewn Dwyieithrwydd

Cyflwynir dwyieithrwydd yng nghyd-destun y cwricwlwm Cymreig unigryw i chi, a'r gwahanol ffyrdd y mae hyn yn cael sylw yn y gwahanol fathau o ysgolion (cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg). Byddwch hefyd yn astudio nodau ac amcanion addysg ddwyieithog o wahanol safbwyntiau, yn ystyried addysg Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) ac yn edrych ar y materion penodol sy'n gysylltiedig ag asesu disgyblion dwyieithog. Ar ôl hynny, byddwch yn ystyried y deilliannau disgwylidig a realistig ar gyfer gwahanol fathau o ddisgyblion ddwyieithog. Byddwch yn dod i wybod am y polisiau iaith sydd ar waith mewn ysgolion, a strategaethau penodol sy'n cael eu cynnwys yn y cwricwlwm i roi sylw i sgiliau iaith dysgwyr, a dod i ddeall y rhain.

Cyflwyno wedi'i oleuo gan ymchwil ac addysgu seiliedig ar ymchwil

Bydd cynnwys a dull cyflwyno'r modiwl yn eich annog i wneud adolygiad beirniadol uwch o bwysigrwydd bod yn ddefnyddwyr a chynhyrchwyr ymchwil ac i ddadansoddi, cyfosod ac adfyfyrion'n feirniadol ar y sbectrwm ymchwil sy'n goleuo ymarfer addysgu. Fe'ch anogir hefyd i gynnig gwerthusiad beirniadol uwch o ymchwil sy'n seiliedig ar ymarfer neu ymchwil agos at ymarfer. Bydd y modiwl yn datblygu gwybodaeth uwch am ysgolheictod athrawon ac effaith hirdymor cymryd rhan mewn ymchwil ar eu datblygiad proffesiynol personol a'r hyn mae'n ei olygu i fod yn athro sy'n wybodus o ran ymchwil. Bydd y modiwl yn annog meistrolaeth uwch o'r hyn y mae'n ei olygu i ddatblygu 'diwylliant ymholi' o fewn systemau ysgolion hunan-wella, ysgolion fel sefydliadau dysgu, a phwysigrwydd datblygu Cymunedau Dysgu Proffesiynol a chymryd rhan ynddynt. Bydd ymchwil benodol a rennir yn ystod digwyddiadau rhwydwaith yn cysylltu'n agos â chynnwys XTE-4211 a XTE-4213 ac fe'i defnyddir i oleuo asesiadau ar gyfer y ddau fodiwl lefel 7 arall

Y Dyddlyfr Proffesiynol

Trwy gydol y modiwl bydd gennych lawer o gyfleoedd i arsylwi, ymarfer a adfyfyrion. Byddwch yn cadw nodiadau ymchwil mewn dyddlyfr proffesiynol sydd wedi'i lunio i gefnogi'ch cynnydd fel Athro Cyswllt (AC) newydd.

Ymarfer Adfyfyriol

Yn ogystal â'r cyflwyniad cychwynnol i addysgu effeithiol, bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddwy sgil ymchwil hanfodol i ymarferwyr: arsylwi ac adfyfyrio. Byddwch yn defnyddio tri model damcaniaethol i arwain eich dadansoddiad o ddysgu ac addysgu.

Cwestiynau Ebbutt

Wrth arsylwi neu adfyfyrio ar ddysgu ac addysgu, defnyddiwch y cwestiynau canlynol i hwyluso eich dadansoddiad o ddysgu ac adfyfyrio ar ymarfer:

- Beth wnaeth y disgyblion mewn gwirionedd?
- Beth oedden nhw'n ei ddysgu?
- Pa mor werthfawr oedd hyn?
- Beth wnes i? (Beth wnaeth yr athro?)
- Beth wnes i ei ddysgu?
- Beth ydw i'n bwriadu ei wneud nesaf?

Ebbutt, 1985, yn Hopkins, D., 2014. *A teacher's guide to classroom research*. Maidenhead, DU: McGraw-Hill Education

Astudiaeth Gwers

Defnyddir yr ail fodel, Astudiaeth Gwers, yn ystod eich lleoliad cyntaf, byddwch yn dadansoddi addysgu a dysgu ochr yn ochr â'ch mentor gan ddefnyddio Astudiaeth Gwers (Cajkler et al., 2013), methodoleg ymchwil y byddwch yn ei defnyddio eto yn eich modiwlau Profiad Ysgol ail a thrydedd flwyddyn.

Cajkler, W., Wood, P., Norton, J. and Pedder, D., 2013. Lesson study: towards a collaborative approach to learning in initial teacher education. *Cambridge Journal of Education*, 43(4), pp.537-554.

Astudiaeth Gwers

Amcanion

- i **AC** gyd-gynllunio gydag athrawon arbenigol mewn cyd-destun;
- i **fentoriaid** ac **AC** arsylwi a dadansoddi'r dysgu;
- i nodi goblygiadau ar gyfer addysgeg pwnc benodol.

Addysgir y wers ddiwygiedig gan yr **AC** i ddosbarth gwahanol (gall hyn fod yn broblematig mewn rhai achosion) a bydd y dysgwyr yn cael eu harsylwi gan y **mentor**. Yna caiff y wers ei dadansoddi er mwyn cychwyn y cylch ymchwil nesaf.

Mae'r **mentor** a'r **AC** yn gwerthuso'r wers gan ddefnyddio'r nodiadau a'r fideo. Mae'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y dysgu; ni fwriedir i'r **mentor** fodelu strategaethau addysgu da i'w dynwared gan yr **AC**. Mae'r wers wreiddiol yn cael ei mireinio o ganlyniad i'r dadansoddiad o ddysgu'r myfyrwyr achos.

Ddarpariaeth Y cyfarfod **mentor** cyntaf gyda mewnbwn y **tiwtor** (bydd mentoriaid yn datblygu annibyniaeth dros amser)

Amser Tiwtor Awr o gyfarfod yn yr ysgol gyda'r mentor a'r **AT**.

Amser Mentor Cyfarfod cychwynnol gyda'r arsylwi a'r adolygu dilynol yn ystod cyfarfodydd mentoriaid.

Mae **tiwtoriaid** yn hyfforddi mentoriaid ac **AC** i ddefnyddio'r cylch Astudiaeth Gwers. Maent yn pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar arsylwi dysgu (nid strategaethau addysgu nac ymddygiad) ac maent yn pwysleisio cyd-barch er mwyn osgoi peri pryder i'r **AC**.

Bydd y **mentor** ac **AC** yn adnabod rhwystr benodol sydd gan eu dysgwyr gydag agwedd o'r pwnc dan sylw. Ar ôl i'r ffocws a'r dysgwyr targed gael eu dewis, mae'r mentor a'r **AC** yn cynllunio'r wers ymchwil yn fanwl, gan ganolbwyntio ar y deilliannau dysgu arfaethedig ar gyfer y dosbarth cyfan ond gyda sylw ychwanegol i anghenion tri disgybl a ddewiswyd.

Addysgir y wers gyntaf gan y **mentor**, yr ymarferydd arbenigol, tra bo'r **AC** yn arsylwi dysgu'r tri dysgwr a bennwyd. Cymerir nodiadau manwl gan yr **AC** a chaiff dadansoddiad dilynol o'r wers ymchwil ei hwyluso gan recordiad fideo.

Paratoi

Addysgu ac
Arsylwi

Cynllunio

Trafod ac
Adfyfyrio

Addysgu ac
Arsylwi

Sail ddamcaniaethol

Dangoswyd bod astudiaeth gwers (Lewis, 2000) yn annog ac yn datblygu cydweithredu o fewn cymunedau dysgu proffesiynol. Mae addasu'r model i AGA yn awgrymu bod astudio gwersi yn offeryn effeithiol ar gyfer datblygu **mentoriaid** yn ogystal â chyflymu cynnydd **AC** (Cajkler et al., 2013).

Y Pedwarawd Gwybodaeth

Mae'r trydydd offeryn adfyfyrion hefyd yn set o gwestiynau; y tro hwn fe'u dosberthir yn ôl pedwar gwahanol fath o wybodaeth a elwir yn **Pedwarawd Gwybodaeth** (Rowland et al. 2005)

Gwybodaeth sylfaen	Gwybodaeth drawsnewid
<p>Beth wnaeth yr addysgu a'r dysgu yn y wers hon ei ddatgelu am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • wybodaeth bwnc yr athro; • eu gwybodaeth o'r cwricwlwm; • eu daliadau ynghylch natur y pwnc; • eu daliadau ynghylch addysgu a dysgu; • eu gwybodaeth am y disgyblion? 	<p>Pa weithgareddau athro (arddangosiadau, gwaith ymarferol, deunyddiau hyfforddi ac asesu) a ddefnyddiwyd gan yr athro i hwyluso dysgu'r disgyblion?</p> <p>Pam y gwnaethant ddewis y dulliau hyn?</p> <p>A oedd yn glir i ddisgyblion beth yr oeddent i fod i'w wneud, pam roeddent yn ei wneud a beth fyddent yn ei ddysgu?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gefnogi'r disgyblion i ddeall cysyniadau?</p> <p>Beth wnaeth helpu'r disgyblion i ddysgu? (Pryd wnaeth y disgyblion ddysgu fwyaf yn ystod y wers?)</p>
Gwybodaeth gyswllt	Gwybodaeth amodol
<p>Sut wnaeth yr athro gysylltiadau rhwng gweithgareddau <u>yn ystod y wers</u>?</p> <p>Sut wnaeth yr athro sicrhau dilyniant rhesymegol o weithgareddau?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltiadau â dysgu blaenorol a dysgu i ddod?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltu'r amcanion dysgu â'r gweithgareddau?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltu'r gweithgareddau â'r cwricwlwm?</p>	<p>Sut yr ymatebodd yr athro i syniadau myfyrwr?</p> <p>A oedd achosion o ddigwyddiadau heb eu cynllunio yn digwydd: e.e. myfyriwr yn gofyn cwestiwn annisgwyl, diffyg adnoddau neu rywbeth 'yn mynd o'i le'?</p> <p>Os felly, beth oeddent a beth oedd eu harwyddocâd?</p> <p>Sut wnaeth yr athro ymateb / ymdopi?</p>

Rowland, T., Huckstep, P. and Thwaites, A., 2005. Elementary teachers' mathematics subject knowledge: The Knowledge Quartet and the case of Naomi. *Journal of Mathematics Teacher Education*, 8(3), pp.255-281.

Lensys Brookfield

Ac yn olaf, mae Brookfield (1998) yn defnyddio pedair lens i arwain adfyfyrdod proffesiynol:

Hunangofiannol	Llygaid y Dysgwyr
<p>Sut mae ein hanes ein hunain yn dylanwadu ar y ffyrdd rydyn ni'n ymddwyn?</p> <p>Rhaid i ni ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> sut mae profiadau personol wedi dylanwadu ar ein credoau pam dewiswn rai dulliau gweithredu dros eraill sut mae ein methiannau a'n llwyddiannau ein hunain yn dylanwadu ar ein dewisiadau o addysgeg. 	<p>Beth yw barn y dysgwyr amdana i a'r ffordd dwi'n dysgu?</p> <p>Dylen ni:</p> <ul style="list-style-type: none"> greu gofod diogel ar gyfer clywed barn y disgyblion. fod yn sensitif i'w hanghenion yn ystod y gwersi gan ymateb mewn modd sensitif. addasu ein cynllunio ac addysgu yn ôl eu hanghenion
Profiad Cydweithwyr	Llenyddiaeth Ddamcaniaethol
<p>Mae cael sgysiau beirniadol gyda chyfoedion yn ein galluogi i:</p> <ul style="list-style-type: none"> ennill persbectif ychwanegol gwerthuso'n fwy effeithiol ac yn feirniadol ehangu ein dulliau o weithredu newid ein harferion. 	<p>Gall darllen llenyddiaeth academaidd:</p> <ul style="list-style-type: none"> fy helpu adnabod a labelu fy nulliau addysgu neu addysgeg esbonio llwyddiant a methiant esbonio cymhlethdod yr ystafell ddosbarth fy nghyflwyno i ddulliau newydd ac effeithiol

[Brookfield, S., 1998. Critically reflective practice. *Journal of Continuing Education in the Health Professions*, 18\(4\), pp.197-205.](#)

Cyfrifoldebau Proffesiynol

Yn ystod eich lleoliad ysgol, dylech gwblhau'r gweithgareddau canlynol:

- Mynd gydag athro ar ddyletswydd un diwrnod yr wythnos.
- Cynorthwyo gyda dyletswyddau gweinyddol y dosbarth dan arweiniad y mentor neu'r tiwtor dosbarth
- Paratoi arddangosfa o waith plant

Gofynion cyfreithiol

- Cael copi o bolisi'r ysgol ar Amddiffyn Plant, Gwrth-fwlio, Disgyblaeth ac Atal (gall hwn fod yn gopi electronig neu gopi caled).
- Sicrhau eich bod yn llenwi'r dudalen diogelu plant ar gyfer yr ysgol arweiniol a'r ysgol rwydwaith yn eich dyddlyfr proffesiynol.
- Cwblhau'r cod ymddygiad proffesiynol ar-lein cyn i'r lleoliad ddechrau.

Wyth Cam Datblygiad Caban

Cam 1

Ffocws: Dechrau deall sut y cynllunnir ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau ac ar wahanol gamau datblygu (datblygiad cyfannol) - cefnogi asesu

Asesiadau Cysylltiedig:

Portffolio Beirniadol Astudiaethau Pwnc- nodi darlleniadau a nodiadau darlithoedd allweddol a'u goblygiadau ar gyfer arferion a daliadau AC

Cam 2

Ffocws: Cyfnerthu ymhellach ac adeiladu ar ymwybyddiaeth o gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol) a rheoli ymddygiad a dysgu. Dechrau deall asesu a'i effaith ar ddysgu disgyblion.

Datblygu ymarfer: Addysgu micro / addysgu fel tîm / addysgu fesul cam dan arweiniad mentor (hyd at 30%)

Asesiadau Cysylltiedig:

Portffolio Astudiaethau Pwnc- nodi darlleniadau a nodiadau darlithoedd allweddol a'u goblygiadau ar gyfer arferion a daliadau AC

Aseiniad PPC Rhan A

Portffolio Cymraeg Rhan A

Cam 3

Ffocws: Cyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol) / Canolbwyntio ar gynllunio tymor byr. Dechrau nodi ffyrdd y gellir ymgorffori cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a datblygu ymwybyddiaeth o addysgeg pwnc-benodol (Astudiaethau Pwnc 1.1, Llythrennedd a Rhifedd). Adnabod y sgiliau llythrennedd a rhifedd personol y mae angen eu datblygu.

Datblygu ymarfer: symud ymlaen fel bo'n briodol o addysgu micro / addysgu fel tîm i fwy o annibyniaeth a gwersi llawnach (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 3-5 awr o wersi).

Asesiadau Cysylltiedig:

Modiwl SE: Arsylwi cyntaf a llenwi Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 1).

Cam 4

Ffocws: Cyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu (datblygiad cyfannol).

Datblygu ymarfer: Annibyniaeth a gwersi llawnach (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 8 awr o wersi).

Aseidiadau Cysylltiedig:

Portffolio Beirniadol Astudiaethau Pwnc – cwblhau'r astudiaeth gwrs.

Aseiniad PPC rhan B

Modiwl PY - Arsyllwadau (FfAA 2).

Rhan B Portffolio Cymraeg- gweithredu strategaethau, casglu tystiolaeth

Cam 5

Ffocws: Trafod ac adfyfrio ar brofiad ysgol cyntaf. Datblygu arbenigedd mewn dulliau ymchwil (ymchwil weithredol a dulliau casglu data pellach). Arsyllwi ac adfyfrio yn y cyfnod cynradd blaenorol.

Aseidiadau Cysylltiedig

Portffolio Beirniadol Astudiaethau Pwnc - cyflwyno'r aseiniad.

Ymholiad Proffesiynol Astudiaethau Pwnc - nodi ffocws tebygol a pharatoi dulliau.

Aseiniad PPC rhan B - paratoi a chyflwyno

Rhan B Portffolio Cymraeg - cwblhau a chyflwyno.

Cam 6

Ffocws: Arsyllwi beirniadol ar ymarfer effeithiol. Cynllunio ac addysgu mewn ail gyd-destun newydd.

Datblygu ymarfer: Annibyniaeth gynyddol a gwersi cyflawn (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 12 awr o wersi).

Aseidiadau Cysylltiedig

Ymholiad Proffesiynol Astudiaethau Pwnc - cwblhau a chyflwyno.

Profiad Ysgol - Arsyllwadau (FfAA 3-5).

Rhan C Portffolio Cymraeg - cwblhau a chyflwyno.

Camau 7 - 8

Ffocws: Cyfnerthu sgiliau ac ymarfer.

Datblygu ymarfer: Cyflawni annibyniaeth a dysgu gwersi cyflawn gyda chyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno hyd at 15-16 awr o wersi. Gall yr addysgu ychwanegol fod yn addysgu mewn tîm, addysgu'r 6^{ed} dosbarth, cefnogaeth bwrpasol i grwpiau bach mewn dosbarthiadau adolygu TGAU ac ati.

Cyfoethogi: Arsylwi mewn lleoliad ADY neu awyr agored

Asesiadau Cysylltiedig

Profiad Ysgol - Arsyllwadau (FfAA 6 - 8).

Ysgol Arweiniol
Ysgol Rwydwaith
Sefydliad AU
MDaPh mewn Ysgol ag arbenigedd

MARh - Mentor Arweiniol Rhwydwaith

PF - Prif Fentor

MY - Mentor Ysgol

FfAA - Ffurflen Asesu Addysgeg

APY - Adroddiad Profiad Ysgol

MDaPh - Maes Dysgu a Phrofiad

<p>Croeso gan yr Arweinydd Cam Sylfaen a diogelu hanfodol (PF)</p> <p>Gweithgaredd 1</p> <p>Arsylwi grŵp cyfan gan ganolbwyntio ar gyfathrebu / siarad (sgwrs oedolion, sgwrs plant a rhyngweithio rhwng oedolion a phlant).</p> <p>Gweithgaredd 2</p> <p>Arsylwi'r oedolion yn yr ystafell.</p> <p>Canolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Iaith y corff • Ciwiau di-eiriau • Rhyngweithio â phlant • Ymateb i blant • Cychwyn gweithgareddau <p>Gweithgaredd 3</p> <p>Arsylwi ar y trosglwyddo rhwng rhieni a'r feithrinfa/dosbarth derbyn ar ddiwedd y dydd. Sut mae oedolion a phlant yn ymddwyn adeg y trosglwyddo? Sylwi ar ryngweithio, iaith, emosiwn, iaith corff pawb sy'n rhan o'r peth.</p>	<p>Arsylwi BI 1 BI 2 neu ddsbarth cymysg BI 1/2</p> <p>Gweithgaredd 4</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut y caiff y plant eu croesawu? • Beth yw swyddogaeth yr athro? • Sut mae arferion yn cael eu sefydlu ar wahanol adegau o'r dydd? <p>Arsylwi sut mae oedolion yn hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol.</p> <p>Gweithgaredd 5</p> <p>Arsylwi grŵp bach o blant a gefnogir gan oedolyn mewn ardal ddarpariaeth.</p> <p>Gweithgaredd 6</p> <p>Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi'r oedolion. Hwyluso dysgu drwy chwarae; myfyrio ar y rhyngweithio rhyngoch chi a'r plant a rhyngddynt ei gilydd wrth iddynt chwarae; gwerthuswch eich dylanwad.</p>	<p>Arsylwi BI 3 BI 4 neu ddsbarth cymysg BI 3/4</p> <p>Gweithgaredd 7</p> <p>Arsylwi a dadansoddi'r ystafell ddsbarth fel y trydydd athro:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut mae'r amgylchedd yn ysbrydoli'r plant? • Sut mae'r amgylchedd yn annog cydweithio a chyfathrebu? • Sut mae'r amgylchedd yn annog y plentyn i archwilio syniadau a chysyniadau? • Pa mor hygyrch yw offer a deunyddiau i'r plant? <p>Parhau i ddadansoddi arferion - sut y cânt eu cynnal? Pa rai sy'n fwy effeithiol?</p> <p>Gweithgaredd 8</p> <p>Parhau i arsylwi strategaethau i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol pan fo'n berthnasol i blentyn unigol. Edrychwch ar batrymau chwarae ac archwilio</p> <p>Olrhain plentyn unigol drwy'r dydd. Canolbwyntiwch ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfnodau pontio • Rhyngweithio • Gweithgareddau • Siarad 	<p>Diwrnod Ysgol Arweiniol</p> <p><u>PACH</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p> <p><u>Cymraeg</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Arsylwi BI 5 BI 6 neu ddsbarth cymysg BI 5/6</p> <p>Gweithgaredd 9</p> <p>Arsylwi grŵp bychan o 4-6 o blant a nodi, yn fanwl, sut y maent yn rhyngweithio â'i gilydd. Nodi goblygiadau'r rhyngweithiadau hyn ar addysgu a chynllunio ar gyfer gofod dysgu'r cyfnod sylfaen.</p> <p>Gweithgaredd 10</p> <p>Adfyfrio estynedig. Adolygu'r wythnos gyfan - o sgwrs i ddsbarth cyfan i weithgareddau grŵp bach</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth wnaethoch sylwi arno? • Sut wnaeth y disgyblion siarad? • Beth wnaethon nhw mewn grwpiau? • Sut wnaethon nhw ryngweithio? • Sut wnaeth y disgyblion ryngweithio â'r oedolion? • Beth wnaethon nhw? • Beth wnaethon nhw ei ddysgu? <p>Postiwch eich myfyrdodau fel templed dysgu proffesiynol i'r PDP ac yna cysylltwch â'r elfen "Cynnydd mewn dysgu"</p>
<p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob dydd adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu ac addysgu a arsylwyd</p>				

NB: Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r ysgol, y dosbarth ac amserlen y mentor. Enghraifft yw'r amserlen hon.

<p>Croeso gan y Pennaeth a diogelu hanfodol (PF)</p> <p>AC yn arsylwi dosbarth ym mlynyddoedd 0 -2 neu 3 - 6 gan ganolbwyntio ar lafaredd/sgwrsio (sgwrs athro, sgwrs disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion).</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu, gan weithredu fel Cynorthwywr Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i gymryd llun gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Canolbwyntio ar gyfathrebu (gan gynnwys Cymraeg pob dydd/gloywi iaith)</p>	<p>Cychwyn yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Arsylwi dosbarth gan ganolbwyntio ar lafaredd/sgwrsio (sgwrs athro, sgwrs disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion).</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu, gan weithredu fel Cynorthwywr Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Canolbwyntio ar gyfathrebu (gan gynnwys Cymraeg pob dydd/gloywi iaith)</p>	<p>Cychwyn yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Arsylwi grŵp bach gan ganolbwyntio ar sgiliau llythrennedd ehangach (darllen ac ysgrifennu) a chanolbwyntio'n fanylach ar sgwrs disgybl-disgybl.</p> <p>Parhau i nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p> <p>Adfyfrio estynedig mewn parau neu driawdau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth wnaethoch sylwi arno? • Ceisiais addysgu hyn - beth ddigwyddodd? • Sut oedd y disgyblion yn siarad? • Beth wnaethon nhw mewn grwpiau? • Sut wnaethon nhw rhyngweithio? 	<p>Diwrnod yn ôl yn y coleg</p> <p>Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Cychwyn yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Arsylwi dosbarth cyfan gan ganolbwyntio ar reoli'r gwahanol weithgareddau a'r gofod dysgu.</p> <p>Nodi unrhyw ddatblygiadau amlwg o'r blynyddoedd blaenorol a arsylwyd</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> <p>Arsylwi grŵp bach gan ganolbwyntio ar sgiliau llythrennedd ehangach (darllen ac ysgrifennu) a chanolbwyntio'n fanylach ar sgwrs disgybl-disgybl.</p> <p>Ystyried y cynnydd a datblygiad iaith gan dysgwyr ADY i MATH</p>
<p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob dydd adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu ac addysgu a arsylwyd</p>				

Cyfrifoldebau'r Mentor

Cyflwyniad i'r cyfnod a dosbarth

Ystyriaethau ymarferol (lle cedwir pethau ac ati)

Ffyrdd o weithio

Mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch yn ôl yr angen

Trefnu arsylwadau

Adolygiad o'r wythnos gyntaf – o sgwrs dosbarth cyfan i weithgareddau grŵp bach

NB: Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r ysgol, y dosbarth ac amserlen y mentor. Enghraifft yw'r amserlen hon.

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p>Arsylwi Canolbwyntio ar ddechreuwr / dechreuadau; trawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; ymgysylltu; AagD.</p> <p>Parhau i nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cynorthwywr Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Wrth gefnogi disgyblion, nodwch pa MDaPh/faes dysgu sy'n cael sylw. Nodi'r wybodaeth bwnc y mae'r disgyblion yn ei chaffael a'r addysgeg sy'n cael ei mabwysiadu gan yr athro. (Beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu?)</p>	<p>Arsylwi Canolbwyntio ar ddiwedd gwersi, yn enwedig AagD. Parhau â thrawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; ennyn diddordeb; ymgysylltiad.</p> <p>Parhau i nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cynorthwywr Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Wrth gefnogi disgyblion, nodwch pa MDaPh /faes dysgu sy'n cael sylw. Nodi'r wybodaeth bwnc y mae'r disgyblion yn ei chaffael a'r addysgeg sy'n cael ei mabwysiadu gan yr athro. (Beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu?)</p>	<p>Addysgu mewn tîm Mae'r AC yn gyfrifol am y cyflwyniad i wers a gynlluniwyd ac a gyflwynir fel arall gan y mentor*; Yna rhoddir swyddogaeth gefnogol allweddol i'r AC, fel cymryd grŵp o ddysgwyr; gweithredu fel Cynorthwywr Addysgu gydag unigolion.</p> <p>Adfyfrio a pharatoi: adfyfrio ar ymddygiad a welwyd yn ystod y 5 diwrnod diwethaf. Paratoi cyfraniad byr at gyflwyniad y diwrnod canlynol ar ymddygiad ar gyfer dysgu. Nodi un digwyddiad y gallwch ddysgu oddi wrtho.</p> <p>Cyfarfod a chyfrifoldebau mentoriaid Rhannu/trafod cynlluniau gwersi cyn addysgu mewn tîm. Trafod gwersi addysgu mewn tîm ymlaen llaw a briffio AC ar eu swyddogaeth mewn gwersi a addysgir mewn tîm Cynllunio arsylwi (yn debygol o fod y dosbarthiadau mae AC yn mynd i'w haddysgu). Briffio AC ar gyflwyniadau gwersi sydd i'w cynllunio a'u haddysgu yn yr wythnos ganlynol.</p>	<p>Diwrnod Ysgol Arweiniol</p> <p><u>PACH</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p> <p><u>Cymraeg</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Addysgu mewn tîm Gwers a gynlluniwyd gan yr AC a'r mentor*; AC yn cael swyddogaeth gefnogol allweddol e.e: cymryd grŵp o ddysgwyr; dechrau'r wers; gweithredu fel Cynorthwywr Addysgu gydag unigolion.</p> <p>Amser adfyfrio estynedig Ar y ddwy wers a gefnogir gan yr AC:</p> <ul style="list-style-type: none"> Beth a ddysgwyd? Sut wnaeth y mentor asesu'r dysgu? A oedd y gweithgareddau'n effeithiol? A oedd angen rhoi sylw i unrhyw ymddygiadau oddi ar y dasg? Beth oedden nhw? Beth fyddai'r mentor yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf? <p>Uwchlwytho i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol a chasglu tystiolaeth ar gyfer aseiniad PACH</p>
<p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob dydd bydd hyfforddeion yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu a arsylwyd ganddynt</p>				

NB Bydd AC yn cymryd mwy o reolaeth dros wersi; byddant yn addysgu gwersi llawn fel y cytunir gyda'r mentor ac yn cymryd cyfrifoldeb am 3-5 awr o wersi. Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r ysgol, y dosbarth ac amserlen y mentor

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p>Addysgu Mae'r mentor yn rhoi ei gynllun ar gyfer gwर्स llythrennedd neu fathemateg i'r AC; mae'r AC yn gweithio gyda grŵp bach gan ddilyn cynllun y mentor.</p> <p>Gwerthuso a chynllunio Mae AC yn defnyddio'r deilliannau a'r camau cynnydd i asesu lle mae dysgwyr wedi cyrraedd a chynllunio gwर्स ar gyfer y diwrnod canlynol</p> <p>Arsylwi ac adfyfrio Dylai cofnodion mewn dyddlyfr gysylltu deilliannau a arsylwyd, gweithgareddau a deilliannau â chynlluniau posibl e.e. "Sut fyddwn i wedi cynllunio ar gyfer hyn?" Defnyddio'r Craidd Cyfarwyddol i ddadansoddi'r ystafell ddosbarth</p> <p>Gwerthuso a chynllunio Mae AC yn defnyddio'r deilliannau a'r camau cynnydd o wers y bore i gynllunio gwर्स ar gyfer y diwrnod canlynol gyda'r un dysgwyr (gall fod yn grŵp bach)</p>	<p>Addysgu Cyflwyno gwर्स i grŵp bach o'r diwrnod blaenorol</p> <p>Cymraeg Ar y diwrnod hwn a'r dyddiau dilynol, dilyniant i'r sesiwn a roddwyd ddydd Iau diwethaf</p> <p>Gwerthuso ac asesu Dewis tri llyfr o waith plant gyda'r mentor (neu dystiolaeth ffotograffig o'u dysgu). Defnyddio polisi marcio ac asesu'r ysgol i asesu cynnydd y plant.</p> <p>Cynllunio ar gyfer tasg ffocws bore Gwener naill ai mewn llythrennedd neu fathemateg. Sicrhau bod y cynllun yn darparu ar gyfer pob cam datblygiad yn y dosbarth (gwahaniaethu)</p>	<p>Arsylwi (drwy'r dydd) Canolbwyntio ar y canlynol yn eu tro</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu (athro-disgybl a disgybl-disgybl) • Gwahaniaethu • Cyfnodau pontio • Ymddygiadau dysgu • Asesu ar gyfer dysgu a gofyn cwestiynau <p>Cymharu a chyferbynnu'r ddau gam a chanolbwyntio ar y cynnydd rhwng blynyddoedd sylfaen a blynyddoedd diweddarach.</p> <p>Adfyfrio mewn grwpiau/parau ar arsylwi dysgu</p>	<p>Diwrnod Ysgol Arweiniol</p> <p>PACH Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p> <p>Cymraeg Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Cyflwyno'r dasg ffocws a gynlluniwyd brynhawn dydd Mawrth.</p> <p>Adfyfrio estynedig Adfyfrio ar agweddau allweddol ar gynllunio a gweithredu, gan ganolbwyntio'n benodol ar addysgu'r Gymraeg.</p>
<p>Cyfarfod a chyfrifoldebau mentoriaid Sicrhau bod yr AC yn arsylwi gwर्स mentor. Trafod deilliannau'r dysgwyr gyda'r AC. Sicrhau bod yr AC wedi cynllunio ar gyfer addysgu mewn tîm a dechrau gwर्स. Paratoi ar gyfer yr Astudiaeth Gwर्स Trefnu arsylwadau ar gyfer addysgu'r Gymraeg. Briffio'r AC a'u cefnogi wrth gynllunio gwर्स yr wythnos nesaf, gan nodi pa wersi sy'n gyfrifoldeb llawn iddynt. Gwirio Dyddlyfr Proffesiynol yr AC.</p>				

NB Bydd AC yn cymryd mwy o reolaeth dros wersi; byddant yn addysgu gwersi llawn fel y cytunir gyda'r mentor ac yn cymryd cyfrifoldeb am 3-5 awr o wersi. Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r ysgol, y dosbarth ac amserlen y mentor

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p>Cynllunio Gwneud cynllun o'r ystafell ddosbarth yn dangos y manau darparu. Nodi adnoddau allweddol ar gyfer darpariaeth barhaus a dangos ar eich cynllun sut mae'r plant yn cael mynediad at adnoddau i hwyluso darpariaeth barhaus</p> <p>Hwyluso a chefnogi dysgu mewn 2-3 gwahanol ardal ddysgu. Hwyluso'r ddarpariaeth barhaus</p>	<p>Addysgu mewn tîm gyda chyfoedion Gwers wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan un AC gydag ail AC yn cynorthwyo (os yn bosib).</p> <p>Adfyfrio Dylai cofnodion yn y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgwyd yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig. Mae cefnogi AC yn rhoi ail farn a sylwadau perthnasol.</p> <p>Arsylwi a hwyluso darpariaeth well. Cynllunio tair tasg well i ddatblygu'r sgiliau i'w cyflwyno yn ddiweddarach yn yr wythnos</p>	<p>Addysgu mewn tîm gyda chyfoedion Gwers wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan yr ail AC gyda'r AC cyntaf yn cynorthwyo.</p> <p>Adfyfrio Dylai cofnodion yn y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgwyd yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig. Mae'r AC sy'n cefnogi yn rhoi ail farn a sylwadau perthnasol.</p> <p>Adfyfrio Dylai cofnodion yn y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig.</p>	<p>Diwrnod Ysgol Arweiniol</p> <p><u>PACH</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p> <p><u>Cymraeg</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Addysgu gwersi wedi'u cynllunio a thasgau ffocws.</p> <p>Adfyfrio Estynedig AC yn paratoi cyflwyniad adfyfyrion ar gyfer adolygiad nesaf yn y coleg, gan ddefnyddio cwestiynau Ebbutt, y Craidd Cyfarwyddol neu Lensys Brookfield.</p>
<p>Cyffredinol AC yn cynllunio ac yn cyflwyno gwersi (5 awr) mewn ymgynghoriad â'r mentor Parhau i gefnogi ac arsylwi, gan edrych ar y pedwar diben (8 awr) Cynyddu uwchlwytho tystiolaeth i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol. Parhau i adfyfrio mewn parau ar ddiwedd y dydd. Cynllunio ar gyfer yr Astudiaeth Gwers</p>			<p>Cyfarfod a chyfrifoldebau mentoriaid Sicrhau bod y AC yn dysgu gwersi ar y cyd gydag AC arall mewn rôl gefnogi (ac yna cyfnewid cyfrifoldebau). Gwirio gwaith cynllunio'r AC (gan anodi'r cynlluniau) Trefnu arsylwadau ar gyfer addysgu'r Gymraeg. Parhau i frifio ar gyfer cynllunio. Pwysleisio defnydd a goblygiadau AagD. Cynllunio ar gyfer yr Astudiaeth Gwers</p>	

Cam 4 (2 wythnos)

05/12/2022

Bydd Athrawon Cyswllt yn cynllunio ac yn addysgu gwersi llawn fel y cytunir gyda'r mentor ac yn cymryd cyfrifoldeb am 8 awr o wersi.

Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r ysgol, y dosbarth ac amserlen y mentor. Mae'r amserlen isod yn enghraifft.

Llun, Mawrth, Mercher, Gwener	Iau (Rhaglen wythnosol)	Cyfarfodydd â mentoriaid
<p>Cynllunio a chyflwyno gwersi sy'n cynnwys y CTG.</p> <p>Dylai AC addysgu 8 awr mor fuan â phosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid gweithredu'r cynllun cymorth</p> <p>Cynllunio'n annibynnol gyda chefnogaeth mentor</p> <p>Parhau i gefnogi ac arsylwi, gan edrych ar ADY, cydraddoldeb, asesu ar gyfer dysgu (8 awr).</p> <p>Cwblhau tasgau yn tarddu o seminarau addysgu Cymraeg.</p> <p>Parhau i fyfyrwyr mewn parau unwaith yr wythnos gan uwchlwytho tystiolaeth i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PLP).</p> <p>Cwblhau tasg TGCh ar gyfer y Gweithlyfr Sgiliau</p> <p>Cwblhau'r Astudiaeth Gwers – myfyrdodau yn bwydo i'r Portffolio Beirniadol</p> <p>Wythnos olaf: Paratoi'r Portffolio Beirniadol ar gyfer sesiwn adolygu'r modiwl Astudiaethau Pwnc</p>	<p>Diwrnod Ysgol Arweiniol</p> <p><u>PACH</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p> <p><u>Cymraeg</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p> <p>Yn y coleg <u>PACH/Astudiaethau Pwnc</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Cyfarfod â mentor Arsylwi, adolygu a llenwi Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 2) a gosod targedau Gwirio Dyddlyfr Proffesiynol Gwirio cynllunio</p> <p>Cyfarfod â mentor Llenwi a thrafod Adroddiad Profiad Ysgol (APY). Adolygu tystiolaeth Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP).</p>

Cam 6 (Wythnos 1) Lleoliad gyda Blynyddoedd 0-2 neu 3-6

30/01/2023

Bydd AC yn cynllunio ac yn addysgu gwersi llawn fel y cytunir gyda'r mentor ac yn cymryd cyfrifoldeb am 12 awr o wersi erbyn diwedd y lleoliad
Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r ysgol, y dosbarth ac amserlen y mentor. Mae'r amserlen isod yn enghraifft.

Llun, Mawrth, Mercher, Gwener	Dydd Iau	Cyfarfodydd mentor
<p>Wythnos ymgartrefu</p> <p>Croeso gan y pennaeth a diogelu hanfodol; Iechyd a Diogelwch. Taith o gwmpas yr ysgol gan ganolbwyntio ar yr ysgol fel cymuned Cynefino i ethos ac arferion yr ysgol. Cyflwyniad i'r dosbarth a'r mentor. Ystyriaethau ymarferol.</p> <p>Arsylwi, edrych ar ddysgwyr, rhyngweithiadau ac ymddygiadau gan ganolbwyntio ar addysgeg a dod yn gyfarwydd ag adnoddau a chynlluniau gwaith.</p> <p>AC i addysgu dwy wers i grwpiau bach (cefnogi prif wers y mentor) a thrafod deilliannau sy'n seiliedig ar asesiad dysgu yn y gwersi a'r mentor.</p>	<p>Diwrnod Ysgol Arweiniol</p> <p>Diwrnod Mentor Iaith</p> <p>Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Cyfarfod mentor</p> <p>Adolygiad o'r lleoliad blaenorol.</p> <p>Gwirio bod mentor yn gallu mynd at y Pasbort Dysgu Personol (PDP).</p> <p>Trafod yr Adroddiad Profiad Ysgol (APY) blaenorol ac adfyfrio gan yr AC ar safonau yn y PDP.</p> <p>Pennu gwersi Cam 6</p> <p>Rhannu rhestrau dosbarth</p>

Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Mercher, Dydd Gwener	Dydd Iau	Cyfarfodydd mentor
<p>Reflect: At the end of each day Trainees reflect in groups/pairs on their observations of learning Cynllunio a chyflwyno gwersi sy'n cynnwys y sgiliau, gan adeiladu ar Gamau 4 a 5.</p> <p>Os nad yw'r AC yn gallu addysgu 12 awr, dylid gweithredu Cynllun Cymorth Manylach.</p> <p>Cynllunio gyda chymorth mentor.</p> <p>Parhau i gefnogi ac arsylwi, gan fyfyrwyr ar sut mae athrawon yn darparu ar gyfer y Pedwar Diben ac yn eu hwyluso (4 awr).</p> <p>Cwblhau gwaith dilynol ar dasgau o seminarau Cymraeg (Cymraeg Pob Dydd a'r Cwricwlwm Cymreig) gan sicrhau bod y portffolio yn gyfredol.</p> <p>Mwy o uwchlwytho tystiolaeth 'r PDP.</p> <p>Cwblhau'r Ymholiad Proffesiynol</p> <p>Cwblhau Portffolio Cymraeg Rhan C</p>	<p>Ysgol Arweiniol Gweler y llawlyfr a Blackboard fanylion</p>	<p>Cyfarfod Mentor Trafodaeth gychwynnol ar yr Ymholi Proffesiynol (gan gynnwys moeseg). Cytuno ar ganolbwynt yr ymchwiliad.</p>
	<p>Yn y coleg Gweler y llawlyfr a Blackboard fanylion</p>	<p>Cyfarfod Mentor Ffocws ar Gymraeg Pob Dydd – monitro'r portffolio a gosod targedau ar gyfer cwblhau Paratoi ar gyfer yr arsylwad.</p>
	<p>Diwrnod MDaPh Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Cyfarfod mentor Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 3) a gosod targedau</p>
	<p>Ysgol Arweiniol Gweler y llawlyfr a Blackboard fanylion</p>	<p>Cyfarfod mentor Trafod a chefnogi yr Ymholiad Proffesiynol. Trafod rôl y mentor yn yr ymholiad (e.e. arsylwi ar ganolbwynt penodol).</p>
	<p>Yn y coleg Gweler y llawlyfr a Blackboard fanylion</p>	<p>Cyfarfod mentor Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 4) a gosod targedau</p>
	<p>Diwrnod MDaPh Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Cyfarfod mentor Trafod a chefnogi Ymholiad Proffesiynol. Cwblhau'r ymholiad yn ystod pythefnos olaf y lleoliad Neilltuo addysgu ychwanegol ar gyfer cam 7-8</p>
	<p>Diwrnod MDaPh Gweler y llawlyfr a BB am fanylion</p>	<p>Cyfarfod mentor Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 5) a gosod targedau</p>

Arsylwi mewn ysgol uwchradd
I'w drefnu gan yr Ysgol Rwydwaith (Llun - Mercher)

17/04/2023

Mae'r holl weithgareddau i'w darparu o fewn cyfyngiadau'r ysgol, y dosbarthiadau, ac argaeledd athrawon. Mae'r amserlen isod yn enghraifft.

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p>Croeso gan y Pennaeth a diogelu hanfodol, Iechyd a Diogelwch (NLM)</p> <p>Taith o amgylch yr ysgol gan ganolbwyntio ar ysgol fel cymuned. Cyflwyniad ar ethos ac arferion yr ysgol.</p> <p>Cwrdd â phennaeth blwyddyn 7 i drafod trosglwyddo (<i>gellir gosod hwn yn unrhyw le yn ystod y tri diwrnod</i>)</p> <p>Arsylwi dosbarthiadau blwyddyn 7 gan ganolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dilyniant (beth maent yn ei ddysgu?) • Addysgeg (sut maent yn dysgu?) • Ymddygiad (beth yw'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau amlwg o'i gymharu â CA2?) 	<p>Cyfarfod â grŵp ffocws bach o flwyddyn 7</p> <p>Cynllunio cwestiynau i'w gofyn i ddisgyblion blwyddyn 7 gan gynnwys:</p> <p>Beth aeth yn dda pan wnaethoch chi symud ysgol? Beth sydd angen ei wella?</p> <p>Canolbwyntio cwestiynau ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dysgu • Ffrindiau ac amgylchedd cymdeithasol • Yr amgylchedd ffisegol • Y cwricwlwm • Her • Paratoi yn yr Ysgol Gynradd ar gyfer trosglwyddo <p>Arsylwi dosbarth blwyddyn 7.</p> <p>Canolbwyntio ar gyrhaeddiad, her, cefnogaeth a gwahaniaethu</p>	<p>Arsylwi ystod o wersi blwyddyn 7 (dilyn un disgybl efallai)</p> <p>Canolbwyntio ar greadigrwydd a dysgu annibynnol</p> <p>Arsylwi gwersi o flwyddyn 7-10</p> <p>Ffocws ar ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut mae dysgwyr yn cael eu cefnogi? • Beth yw effaith setio yn y sector uwchradd? • Sut mae medrau dysgwyr wedi datblygu ers y cynradd? • Sut mae'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu yn y cynradd yn newid wrth iddynt symud i'r uwchradd? • Sut mae ymddygiad yn gysylltiedig â chyrhaeddiad academaidd gwael? 	<p>Diwrnod MDApH</p> <p>Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Astudio Annibynnol</p> <p>Cwblhau'r Ymholiad Proffesiynol</p>
<p>Ar ddiwedd pob dydd, adfyfrio mewn paru. Nodi goblygiadau i athrawon blwyddyn 6. Adfyfiriwch ar natur addysgeg yn yr uwchradd gan ddefnyddio eich arsylwadau fel sail i'ch trafodaeth.</p>				

Profiad Ysgol 3

(I'w gwblhau yn y blynyddoedd a ddewiswyd gan yr AC)

Cam 7-8 (8 wythnos)

Addysgu a myfrio annibynnol

24/04/2023

Pe bai'n rhaid i'r AC newid ysgol ar ddiwedd cam 6, dylai Cam 7 gynnwys wythnos sefydlu (gweler isod); fel arall, mae AC yn symud ymlaen yn uniongyrchol i'r rhaglen a nodir ar y dudalen nesaf

Dydd Llun - Dydd Gwener	Dydd Iau	Cyfarfod mentor
<p>Wythnos Ragarweiniol</p> <p>Diwrnod cyntaf yn yr ail Ysgol Rhwydwaith</p> <p>Croeso gan y Pennaeth a diogelu hanfodol; iechyd a diogelwch. Taith ysgol gyda ffocws ar yr ysgol fel cymuned Ymsefydlu i ethos ac arferion yr ysgol. Cyflwyniad i'r dosbarth a'r mentor. Ystyriaethau ymarferol.</p> <p>Arsylwi, edrych ar ddysgwyr, rhyngweithiadau ac ymddygiadau Canolbwyntio ar addysgeg a dod yn gyfarwydd ag adnoddau a chynlluniau gwaith.</p> <p>AC i addysgu dwy wers gyda grwpiau bach (prif wers y mentor) a thrafod canlyniadau sy'n seiliedig ar asesiad dysgu AT a mentor.</p>	<p>Yn y coleg</p> <p>Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Cyfarfod Mentor 1</p> <p>Adolygiad o'r lleoliad blaenorol.</p> <p>Sicrhau mynediad i'r PDP</p> <p>Trafod Adroddiad Profiad Ysgol blaenorol a myfyrdod AT ar safonau yn y Pasbort Dysgu Proffesiynol</p> <p>Neilltuo gwersi ar gyfer Camau 7-8.</p> <p>Derbyn rhestr dosbarth.</p>

Dylai AC addysgu 15 awr yr wythnos erbyn diwedd y cam.

Dydd Llun – Dydd Gwener	Dydd Iau	Mentora
<p>Cynllunio a chyflwyno gwersi sy'n cynnwys y sgiliau, gan adeiladu ar Gam 6</p> <p>Dylai AC addysgu 15 awr, yn dibynnu ar eu cynnydd yng Nghyfnod 6 ac yn sicr erbyn diwedd y cam. Gall yr addysgu ychwanegol fod yn addysgu tîm neu cymorth pwrpasol ar gyfer grwpiau bach ADY neu MAT. Bydd y cyfrifoldebau addysgu ychwanegol hyn yn disodli'r arsylwadau.</p> <p>Ffocws: mireinio gwahaniaethu ac asesu ar gyfer dysgu; dylai cynllunio gael ei lywio gan asesiad parhaus a dylai adeiladu ar ddysgu blaenorol.</p> <p>Cynllunio'n annibynnol - llai o gymorth gan fentoriaid</p> <p>Parhau i lanlwytho, diweddarau ac adolygu tystiolaeth i'r PDP.</p> <p>Cwblhau Proffil Mynediad Gyrfa</p> <p>Gall yr wythnos olaf gynnwys mwy o arsylwi a myfyrio gan mai dim ond deuddydd fydd yr AC yn yr ysgol.</p>	<p>Yn y coleg Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Cyfarfod Mentor Gosod targedau ar gyfer y camau olaf</p>
	<p>Ysgol Arweiniol Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Cyfarfod mentor Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 6) a gosod targedau</p>
		<p>Cyfarfod mentor Adolygiad o SPAA – canolbwyntio ar Arloesi a Chydweithredu</p>
		<p>Cyfarfod mentor Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 7) a gosod targedau</p>
		<p>Cyfarfod mentor Adolygiad o Gymraeg Pob Dydd.</p>
		<p>Cyfarfod mentor Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 8) a gosod targedau</p>
	<p>Ysgol Arweiniol Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Cyfarfod mentor Trafod Adroddiad Profiad Ysgol (SER) a chefnogi'r SPAA</p>
	<p>Yn y coleg Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p>	<p>Cyfarfod mentor Cefnogaeth ar gyfer y Proffil Dechrau Gyrfa</p>